**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES Y CABINET**

**DYDD IAU, 25 MAI 2023**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr: J.Hurley, N.Jenkins a/ac C.Phillips

**Swyddogion yn bresennol:**

C.Millis, R.Crowhurst, K.Windsor-Brown, D.Holder-Phillips, I.Guy, S.McCluskie a/ac A.Thomas

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cyng. Nia Jenkins yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Datganwyd buddiannau gan y Cyng. N Jenkins. Datganodd y Cyng. Jenkins ei bod yn Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Maes y Coed, Castell-nedd.

Ystyriwyd nad oedd y buddiant yn un rhagfarnol, a oedd yn caniatáu i'r Cyng. Jenkins i aros a chymryd rhan yn y cyfarfod.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Penderfynwyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol Bwrdd y Cabinet Addysg, Sgiliau a Lles, a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2023, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau.

6. **CEFNOGAETH CYMRAEG 2IL IAITH**

Darparwyd trosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd i'r aelodau.

Penderfyniad:
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi fel mater er gwybodaeth.

7. **RHAGLEN SEREN**

Darparwyd trosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd i'r aelodau.

Penderfyniad:
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi fel mater er gwybodaeth.

8. **CYLLIDEB CLUDIANT PERSONOL**

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r adroddiad a ddosbarthwyd, gydag atodiadau rhestredig yn cynnwys yr asesiad effaith integredig, mae'r Aelodau'n cymeradwyo'r canlynol:

I. Cyflwyno Cyllideb Teithio Personol fel dull ychwanegol o gymorth teithio dan Bolisi Teithio o'r Cartref i'r Ysgol 2017 y cyngor.
II. Bod y Gyllideb Teithio Personol ar gael i'w defnyddio yn y flwyddyn academaidd 2023/2024.
III. Bod y Gyllideb Teithio Personol yn parhau i gynnwys cynigion lwfans milltiroedd sydd eisoes yn bodoli, gan ychwanegu,
   a. Prynu cerdyn teithio ar gyfer cludiant cyhoeddus.
   b. Talu person cyfrifol y bernir ei fod yn briodol gan y rhiant/gofalwr i helpu'r plentyn i ddefnyddio cludiant cyhoeddus.
   c. Talu person cyfrifol yr ystyrir ei fod yn briodol gan y rhiant/gofalwr i gerdded neu feicio i'r ysgol gyda'r plentyn.
   d. Talu person cyfrifol yr ystyrir ei fod yn briodol gan y rhiant/gofalwr i yrru'r plentyn i'r ysgol.
   e. Talu am danwydd.
   f. Talu i deithio mewn tacsi.
   g. Talu gwarchodwr plant.
   h. Trefnu i deithio i gyfeiriadau cartrefi ar wahân lle mae gwarchodaeth ar y cyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Bod y Gwasanaeth Cludiant Addysg, ynghyd ag adran Cludiant i Deithwyr Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd yn parhau i reoli pwysau cyllidebol, sy'n cynnwys opsiynau amgen sydd ar gael drwy'r Gyllideb Teithio Personol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Gweithredir y penderfyniad yn dilyn y cyfnod galw i mewn o dridiau, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun 29 Ebrill 2023.

**Ymgynghoriad:**
Nid oedd angen unrhyw ymgynghoriad.

9. **MWY O LEOEDD CYNLLUNIEDIG - CANIATÂD I YMGYNGHORI**

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig o'r pecyn agenda a ddosbarthwyd, bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r canlynol:

I. Ymgynghoriad i gynnig darpariaeth arbenigol ag 16 lle ar gyfer disgyblion oedran cynradd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig (ASA) yn Ysgol Gynradd Blaenhonddan.

II. Ymgynghoriad i gynnig cynnydd yn nifer y lleoedd i ddisgyblion yn Ysgol y Coed o 90 i 115.

III. Cydymffurfio â'r gofynion ymgynghori ffurfiol a osodir ar y cyngor gan y Côd Trefniadaeth Ysgolion.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Cydymffurfio â gofynion ymgynghori ffurfiol a osodir ar y cyngor gan y Côd Trefniadaeth Ysgolion a hyrwyddo safonau addysgol uchel o botensial plant ysgol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Gweithredir y penderfyniad yn dilyn y cyfnod galw i mewn o dridiau, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun 29 Ebrill 2023.

**Ymgynghoriad:**
Mae angen ymgynghori o dan Raglen Strategol Gwella Ysgolion y cyngor. Yn dilyn cymeradwyaeth Aelodau'r Cabinet, bydd y cyfnod ymgynghori'n dechrau ar 6 Mehefin ac yn dod i ben ar 18 Mehefin 2023.

## 10. **EITEMAU BRYS**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**